CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
21 Hydref 2014, Gosen, Llangwyllog
am 7:30 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D Pritchard, D Roberts, A Williams, W Williams, A Wyn, N Roberts (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Morgan, C McGregor, M Lees, W Vaughan, R G Parry (Cyngor Sir), D Rees (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cyng D Roberts
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 16 Medi 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng W Williams yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gor-yrru Llangwyllog** - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.2	**Is-Gadeirydd** - Etholwyd Cyng A Wyn yn Is-Gadeirydd 2014/15
4.3	**Gofeb Talwrn -** Mae y Clerc wedi cael hyd i cwmni (H O Davies) sydd yn fodlon cynnig pris am y gwaith
4.4	**BT Fibre Optic** - Dywedodd y Clerc bod BT yn derbyn ceisiadau am Fibre Optic
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	Mae'r Clerc wedi derbyn cais gan yr Adran Priffyrdd i torri llwybrau cyhoeddus a wedi derbyn un pris am y gwaith (G Hughes £980). Penderfynwyd gofyn i Cymunedau yn Gyntaf am pris arall.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	G Hughes prisiau torri llwybrau cyhoeddus (gweler 5.1)
6.2	Grwp Cynefin (gwybodaeth yn unig - grantiau)
6.3	Holyhead & Anglesey Mail - Darllenwyd ebost gan y Mail yn dweud "Yn anffodus oherwydd fod lle'n tueddu i fod yn brin, rydym wedi dechrau polisi newydd o gadw adroddiadau i tua 100 gair neu lai. (Angladdau yw'r un eithriad i'r rheol yma). Mae adroddiadau cyngor yn tueddu o'u natur i fod yn bethau gweddol faith, felly mae'n debyg mai'r ffordd ymlaen yw rhoi ryw ychydig o fanylion fel dyddiad a lle'r cyfarfod, a gwefan er mwyn i'r rhai gyda gwir ddiddordeb allu darllen yr adroddiadau llawn"
	Llofnod……Cadeirydd 18.11.14

7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Penderfynwyd talu y canlynnol: Torch Sul y Cofio £20.00, G Hughes £290.00 (torri gwair y mynwentydd), Hacker Young £240
8	**MATERION ERAILL**
8.1	**Rali -** Mae aelodau y Cyngor yn siomedig nad yw trigolion ardal Llangwyllog wedi derbyn rhybudd cyn rali car yn ddiweddar. Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a trefnwyr y rali i cael gwybod os oes rhybudd ymlaen llaw yn cael ei ddarparu fel arfer?
8.2	**Yr Heddlu** - Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a'r Heddlu i cynnig gwahoddiad i PCSO i'r cyfarfodau misol.
	Llofnod…….Cadeirydd 18.11.14